Trydan Gwyrdd Cymru

Fferm Solar Larnog / Larnog Solar Farm

Ynni i ffynnu. Power to prosper.

Pam rydym wedi dewis y safle hwn?

Mae'r tir yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac mae'n **addas iawn** ar gyfer datblygiad ynni solar. Mae'n gymharol **wastad**, yn buddio o **lefel uchel o olau haul**, ac mae **mynediad da** iddo o'r ffyrdd presennol.

Mae llystyfiant presennol a'r tirwedd amgylchynol yn darparu **sgrin naturiol**, sy'n helpu i leihau golygfeydd o'r fferm solar.

Why have we chosen this site?

The land is owned by the Welsh Government and is well suited to solar development. It is relatively **flat**, benefits from **good levels of sunlight** and has **good access** from the existing road network.

Existing vegetation and the surrounding landscape provide **natural screening**, helping to reduce views of the solar farm.

Mynediad hamdden

Rydym yn gwybod bod yr ardal yn boblogaidd ymhlith **cerddwyr**. Rydym wedi ystyried ffyrdd o wella'r **Hawliau Tramwy Cyhoeddus** ar draws y safle, gan sicrhau ar yr un pryd bod yr ardal yn parhau i fod yn agored.

Rydym yn cynnig rhai **gwelliannau**; er enghraifft, ailgyfeirio llwybr cyhoeddus L1/5/2 yng ngogledd-ddwyrain y safle drwy **berllan gymunedol newydd** a **dôl blodau gwyllt**, a rhoi wyneb newydd ar lwybrau cyhoeddus sy'n croesi'r safle.

Recreational access

We know the area is popular with **walkers**. We have explored ways to improve the **Public Rights of Way** across the site, whilst maintaining openness.

We are proposing some **improvements**, for example, diverting public footpath L1/5/2 at the north-east of the site through a **new community orchard** and **wildflower meadow**, and re-surfacing public footpaths crossing the site.

Sgrinio

Mae'r dyluniad yn **ystyried yn ofalus** sut y bydd y fferm solar yn eistedd o fewn y **tirwedd** amgylchynol, gan ddefnyddio planhigion presennol a newydd i greu **sgrin** a **lleihau ei welededd** o barciau carafanau, llwybrau troed cyhoeddus a lleoliadau eraill gerllaw.

Rydym yn cynnig **diogelu** a **gwella** nodweddion presennol y dirwedd, gan gynnwys gwrychoedd sy'n cael eu cadw, coed, blociau coetir a ffiniau caeau.


Bydd cadw pellter rhwng y paneli solar a Llwybr Arfordir Cymru yn ogystal â llwybrau troed cyhoeddus yn helpu i gynnal y **natur agored**.

Screening

The design **carefully considers** how the solar farm will sit within the surrounding **landscape**, using existing and new planting to provide **screening** and **reduce its visibility** from caravan parks, public footpaths and other nearby locations.

We are proposing to **protect** and **enhance** existing landscape features, including retained hedgerows, trees, woodland blocks and field boundaries.

Offsetting solar panels from the Wales Coastal Path and public footpaths will help to maintain **openness**.



ALLWEDD / *LEGEND*

- Ffin y Safle — Site Boundary
- Gwifrau Uwchben Presennol — Existing Overhead wires
- Pibell Ddŵr Danddaearol Bresennol — Existing Underground Water Pipe
- Parth Gwahardd — Exclusion Buffer
- Adran o Lwybr Troed L1/5/2 wedi'i stopio a'i dargyfeirio — Section of Footpath L1/5/2 stopped and diverted
- Hawl Tramwy Gyhoeddus Bresennol — Existing Public Right of Way (PRoW)
- Rhan Bresennol o Lwybr Arfordir Cymru — Existing Route of Wales Coast Path
- Coeden Bresennol/Grŵp Presennol o Goed — Existing Tree/Tree Group
- Gwrych Presennol — Existing Hedge
- Gwair o dan y paneli i'w gynnal gan ddefaid yn pori — Grass sward below panels to be maintained by grazing sheep
- 1 Is-orsaf Arfaethedig — Proposed Substation
- 2 Paneli Solar Arfaethedig — Proposed Solar Panels
- 3 Trac Mynediad Arfaethedig — Proposed Access Track
- 4 Dargyfeiriad Arfaethedig Llwybr Troed L1/5/2 — Proposed diversion of Footpath L1/5/2
- 5 Gwrych Arfaethedig — Proposed Hedge
- 6 Glaswelltir Gweunwellt Arfaethedig — Proposed Tussock Grassland
- 7 Blodau Gwyllt Arfaethedig — Proposed Wildflower
- 8 Plannu Coed/Prysgwydd Arfaethedig — Proposed tree/scrub planting
- 9 Basn Teneuo Arfaethedig — Proposed Attenuation Basin
- 10 Plannu Atodol a Gwrych Arfaethedig i'w gynnal ar uchder o 3m — Proposed Supplementary Planting and Hedge to be maintained at 3m high
- 11 Perllan Arfaethedig â Rhesi o Flodau Gwyllt — Proposed Orchard with Wildflower Strips
- 12 Llystyfiant presennol sydd wedi gordyfu i'w glirio i ganiatáu mynediad ar hyd yr hawl tramwy gyhoeddus bresennol — Existing overgrown vegetation to be cleared to allow access along existing public right of way
- Pentyrrau Cynefinoedd Arfaethedig — Proposed Habitat Piles
- Banc Gwenyn Arfaethedig — Proposed Bee Bank
- Cynigir gosod dau Flwch Adar ar un Goeden — Proposed 1 no. of Tree to be fitted with 2 nos. of Bird Boxes
- Cynigir gosod dau Flwch Adar ar ddwy Goeden — Proposed 2 nos. of Tree to be fitted with 2 nos. of Bird Boxes each
- Cynigir gosod tri Blwch Ystlumod ar un Goeden — Proposed 1 no. of Tree be fitted with 3 nos. Bat Boxes
- Cynigir gosod tri Blwch Ystlumod ar ddwy Goeden — Proposed 2 nos. of Tree be fitted with 3 nos. Bat Boxes each
- Lliniaru Arfaethedig ar gyfer yr Ehedydd — Proposed Skylark Mitigation

Lluniau/Images: © Crown copyright (2026) Cymru Wales

Bioamrywiaeth

Rydym yn cynnig:

- Gweithredu **mesurau i greu, adfer a gwella cynefinoedd**, sy'n cyfrannu at **wydnwch bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol** ar hyd a lled y safle.
- **Gwella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau blaenoriaeth a rhywogaethau gwarchodedig**, gan gynnwys ystlumod, adar sy'n bridio ac yn gaeafu (gan gynnwys ehedyddion), ymlusgiaid, amffibiaid, infertebratau, a mamaliaid bach (gan gynnwys draenogod).
- **Cefnogi'r** gwaith gwerthfawr y mae grwpiau amgylcheddol lleol yn ei wneud yn yr ardal gyfagos, drwy **gynnal a chryfhau rhwydweithiau seilwaith gwyrdd** ar draws y safle a'r dirwedd ehangach.

Biodiversity

We are proposing to:

- Deliver **habitat creation**, **restoration and enhancement measures** that contribute to **biodiversity resilience and ecological connectivity** across the site.
- **Enhance habitats for priority and protected species**, including bats, breeding and wintering birds (including skylark), reptiles, amphibians, invertebrates, and small mammals (including hedgehogs).
- **Support** the valuable work local environmental groups are undertaking in the surrounding area by **maintaining and strengthening green infrastructure networks** across the site and wider landscape.

Amaethyddiaeth

Nid yw'r safle'n cynnwys unrhyw "Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas".

Gall **ffermio** a **chynhyrchu ynni adnewyddadwy** gyd-fyw ar y safle.

Rydym yn cynnig **sefydlu a rheoli glaswelltir sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau** o dan ac o amgylch seilwaith solar, gan gynnwys cyfleoedd i reoli trwy bori.

Byddai hyn o fudd i'r tir, yn ogystal ag **arallgyfeirio'r** arferion ffermio ar draws y safle.

Agriculture

The site contains **no** "Best and Most Versatile Agricultural Land".

Farming and **renewable energy generation** can co-exist on the site.

We are proposing to **establish and manage species-rich grassland** beneath and around solar infrastructure, including opportunities for grazing management.

This would have benefits for the land, as well as **diversifying** the farming practices across the site.

www.trydangwyrddcymru.wales
croeso@trydangwyrddcymru.wales

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**